# Datganiad Hygyrchedd: System Recriwtio

01/04/2021
Datganiad hygyrchedd ar gyfer ein porth recriwtio.

Defnyddir y wefan hon (https://heritagefund.ciphr-irecruit.com/Applicants/) gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan gytundeb â chyflenwr trydydd parti. Rydym am i gynifer o bobl â phosibl allu defnyddio'r wefan hon i chwilio a gwneud cais am ein cyfleoedd gwaith.

## Pa mor hygyrch yw'r wefan hon

Gwyddom nad yw rhai rhannau o'r wefan hon yn gwbl hygyrch ac rydym yn gweithio gyda'n cyflenwr ar y rhain.

I grynhoi, y prif faterion a ganfuwyd gennym yw:

- Rhai achosion o benawdau wedi'u sgipio ar ein ffurflen gais, yn bennaf mewn perthynas â negeseuon rhybuddio
- Nid oes gan feysydd ffurflenni bob amser labeli a rolau aria y gellir eu darllen gan ddefnyddio technoleg darllenydd sgrin
- Rhai achosion o elfennau'n cael eu cuddio wrth chwyddo i mewn i 400% neu eu gweld drwy dechnoleg symudol

## Beth i'w wneud os na allwch gael mynediad i rannau o'r wefan hon

Cysylltwch â'n tîm Adnoddau Dynol a Phobl:

- Ffôn: 020 7591 6000 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am–5.00pm)
- Ffôn testun: 020 7591 6255
- E-bost: HR-Ops@heritagefund.org.uk

## Rhoi gwybod am broblemau hygyrchedd gyda'r wefan hon

Rydym bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd y wefan hon. Os cewch unrhyw broblemau nad ydynt wedi'u rhestru ar y dudalen hon neu os ydych yn credu nad ydym yn bodloni gofynion hygyrchedd mewn ffordd arall, cysylltwch â'r tîm Adnoddau Dynol a Phobl drwy e-bostio HR-Ops@heritagefund.org.uk neu ffonio 020 7591 6000.

## Gweithdrefn orfodi

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Cydraddoldeb (EASS).

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

# Cysylltu â ni dros y ffôn neu ymweld â ni wyneb yn wyneb

Rydym yn darparu gwasanaeth trosglwyddo testun ar gyfer pobl sy'n D/byddar, â nam ar eu clyw neu sydd â nam ar eu lleferydd. Gallwch gysylltu â ni drwy ffôn testun ar 020 7591 6255.

Os byddwch yn cysylltu â ni cyn eich ymweliad ag unrhyw un o'n swyddfeydd, gallwn drefnu cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

# Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymrwymo i wneud ei gwefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Nid yw'r wefan hon yn cydymffurfio â safon AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We fersiwn 2.1. Rhestrir yr adrannau nad ydynt yn hygyrch isod.

# Cynnwys nad yw'n hygyrch

Nid yw'r cynnwys a restrir isod yn hygyrch am y rhesymau canlynol.

## Ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau hygyrchedd

- **Gwybodaeth a Pherthnasoedd (1.3.1)** - mae gan achosion o benawdau wedi'u sgipio, a meysydd ffurflenni labeli coll a rolau aria
- **Cyferbyniad (Isafswm) (1.4.3)** - mae enghraifft o gyferbyniad lliw annigonol yn bresennol ar rai o'r galwadau i weithredu
- **Ail-lif (1.4.10)** - mae elfennau wedi'u cuddio wrth chwyddo i 400%/gweld drwy ffôn symudol
- **Blociau Osgoi (2.4.1)** - dim sgipio i'r ddolen gynnwys yn bresennol
- **Cyswllt Diben (Mewn Cyd-destun) (2.4.4)** - achosion o gysylltiadau nad ydynt yn gyd-destunol sy'n bresennol

# Sut y gwnaethom brofi'r wefan hon

Profwyd y wefan hon ym mis Mawrth 2021. Cynhaliwyd y prawf yn fewnol.

# Yr hyn rydym yn ei wneud i wella hygyrchedd

Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwr i fynd i'r afael â chynnwys nad yw'n cydymffurfio drwy eu cylch datblygu cynnyrch.

**Paratowyd y datganiad hwn ar 31 Mawrth 2021.**